Norwyaid yng Nghaerdydd

Gan Anja Olsen

Anja ac Oscar Olsen

A

Mae pawb yn nabod yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd ond ydych chi erioed wedi meddwl pam y cafodd ei hadeiladu?

A

- Fe'i codwyd ym 1868 am fod llawer o bobl o Norwy wedi dod i Gaerdydd i weithio yn y diwydiant glo ac i fyw yma
- Morwyr oedden nhw'n bennaf, a ddaeth â phren Norwyaidd i Gaerdydd i'w ddefnyddio yn y glofeydd. Yna aethon nhw â'r glo yn ôl i Norwy i'w werthu

- Roedd cymaint o forwyr o Norwy yn y ddinas sefydlwyd elusen i edrych ar eu hôl nhw ym 1866. Enw hon oedd y Genhadaeth Morwyr Norwyaidd
- Gwnaeth y Gweinidog Lars Oftedal drefnu i eglwys gael ei chodi i'r morwyr
- Adeiladwyd yr eglwys yn Norwy gan Herman Lunde a chafodd ei morio i Gaerdydd ym 1868
- Rhoddodd teulu Bute rywfaint o'r tir i godi'r eglwys arno



- Ei henw oedd “Sjomannskirken” sef ‘Eglwys y Morwyr’ er mai’r Eglwys Norwyaidd rydyn ni’n ei galw heddiw
- Roedd hi’n edrych fel eglwys bentref yn ôl gartref
- Y tu fewn, byddai dynion yn gweddïo ac yn cael sgwrs hefyd â phobl eraill o Norwy. Roedden nhw hefyd yn darllen llyfrau a phapurau newydd yn eu hiaith eu hunain ac yn ysgrifennu llythyrau gartref i’w teuluoedd
- Roedd yn croesawu tua 70 000 o bobl y flwyddyn, a chynnal digwyddiadau hwyl fel dosbarthiadau coginio!

- Yr awdur poblogaidd Roald Dahl oedd y llywydd cyntaf ar ymddiriedolaeth yr Eglwys ond cafodd ei dad fywyd difyr hefyd!
- Arferai Harald Dahl fod yn ffermwr yn Norwy ond symudodd i Gaerdydd i wneud ei ffortiwn
- Sefydlodd fusnes brocer llongau mawr, yn gwerthu popeth oedd ei angen ar y llongau a arhosai yng Nghaerdydd, fel tanwydd a bwyd
- Roedd yn gydberchennog ar ei fusnes gyda gŵr arall o Norwy o'r enw Aadnesen Aac. "Aadnesen & Dahl" oedd enw'r busnes ac roedd y swyddfa ar Stryd Bute
- Gwnaeth Harald lawer o arian; digon i brynu tŷ crand yn Llandaf gyda'i wraig newydd Sophie (oedd o Norwy hefyd)

L

- Erbyn 1920 roedd cymaint o deuluoedd o Norwy yng Nghaerdydd (tua 500) a chymaint o forwyr Norwyaidd yn aros yno credai'r Genhadaeth Morwyr fod angen eglwys a thai newydd. Gallwch weld hyn yn y llythyr.

- Cawsant ganiatâd i wneud hynny, gan godi'r arian i gyd, ond am ryw reswm ni chodwyd yr adeilad.



The Norwegian & Scandinavian Citizens of this City and neighbourhood have felt for many years that their Sailors employed in the large Timber and Coal industry existing between Norway and this Port, have no living or sleeping accommodation, other than 'Doss houses' which from a moral, and I may say sanitary point of view have been greatly deplored by their compatriots for years past.

Hence a great effort has been made, both in Norway and by the Scandinavian Shipowners & Brokers of this Port, to raise such a sum (between £20,000 and £30,000) as a beginning of a large Scheme for which the land has been acquired, to house & help the moral welfare of the Norwegian & Scandinavian Sailors during the time they are resident in Cardiff.

A

- Yn lle hynny, arhosodd llawer o forwyr yn y Cartref Morwyr Sgandinafaidd yn Stryd Bute
- Yn anffodus, cafodd ei ddifetha pan fomiwyd Caerdydd yn yr Ail Ryfel Byd. Bu farw 164 o bobl y noson honno a chladdwyd llawer o'r bobl o'r Cartref ym Mynwent Cathays. Roedd Ole Pederson yn ofalwr yno, a bu farw'n ceisio diffodd tân ac achub pobl

Morwr Norwyaidd

Dros Norwy

Fy Nheulu Norwyaidd

Fy Nheulu Norwyaidd

Dyma fy Hen Hen Hen Daid, Hendry Olsen. Fe'i ganed yn Oslo, Norwy ym 1849. Roedd yn forwr o fri a gweithiodd fel Capten i gwmni llongau o Norwy. Symudodd i'r Alban i weithio. Ymunodd ei fab Watson â'r Llynges Frenhinol a symudodd i Chatham yng Nghaint. Watson oedd un o blymwyr cyntaf y Llynges. Gwasanaethodd ei fab Victor yn y Llynges yn yr Ail Ryfel Byd. Ymunodd mab Victor, Gordon, â'r RAF yn Sain Tathan ger Caerdydd, ac arhosodd yno. Priododd Gordon â Patricia a oedd yn byw yn Llwynbedw, Caerdydd, a'u tad nhw, Michael, yw fy nhad i. Dyma pam mai Anja dwi - enw Norwyaidd yw e.

Gwefannau a ddefnyddiwyd i'r ymchwil

- http://www.norwegianchurchcardiff.co.uk/
- https://www.roalddahl.com/
- http://www.nationalarchives.gov.uk/records/census-records.htm
- http://www.warsailors.com/freefleet/memorials.html
- http://historypoints.org/index.php?page=norwegian-church-arts-centre
- http://www.glamarchives.gov.uk/capital/check/Building%20of%20a%20Capital%202/Worship.html
- http://www.oslobilder.no/search?searchstring=%22sognepr est%22
- http://sjomannskirken.no/english/